Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

7 Tachwedd 2014

Annwyl Gyfaill

**Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru**

Gwyddoch mae'n debyg fod Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i dlodi yng Nghymru. Mae pedair elfen annibynnol i'r ymchwiliad. Bydd pob elfen yn canolbwyntio ar fater penodol, a bydd ganddi ei chylch gorchwyl penodol, ond gyda'i gilydd, bydd yr elfennau hyn yn creu un darn o waith yn ymwneud â'r maes hwn.

Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Elfen 1, tlodi ac anghydraddoldeb, bellach wedi cau. Byddwn yn clywed tystiolaeth lafar i lywio ymhellach ein gwaith ar Elfen 1 cyn diwedd tymor yr hydref, a'r bwriad yw cyflwyno adroddiad yn y Flwyddyn Newydd.

Gan edrych ymlaen, ac er mwyn paratoi ar gyfer ein darn nesaf o waith, rydym wedi penderfynu galw am dystiolaeth ar Elfen 4, oherwydd ei aliniad â'r materion a godwyd yn Elfen 1. Bydd gwaith ar Elfennau 2 a 3 (lles a thlodi mewn gwaith, yn y drefn honno) yn dechrau yn nes ymlaen yn 2015.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8065
E-bost: pwyllgor.cclll@cymru.gov.uk

I gynorthwyo gyda'n hymchwiliad, byddem yn croesawu eich barn ar ddulliau yn y gymuned i fynd i'r afael â thlodi, yn seiliedig ar y cylch gorchwyl canlynol:

**Elfen 4**: **dulliau o drechu tlodi yn y gymuned**

Trafod:

- cysondeb mentrau gwrthdlodi mewn gwahanol ardaloedd;
- pa mor effeithiol yw rhaglenni gwrthdlodi sy'n canolbwyntio ar ardaloedd penodol fel Cymunedau yn Gyntaf;
- hynt yr argymhellion a wnaed gan gyn Bwyllgor Datblygu Gwledig y Cynulliad yn ei adroddiad 'Tlodi ac amddifadedd yn y Gymru wledig' yn 2008.

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion yn Gymraeg neu'n Saesneg gan unigolion a sefydliadau, a bydd yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar maes o law.

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phump ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl fel y'i nodir uchod.

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth hygyrch i'r gynulleidfa ehangaf bosibl. Bwriad y wybodaeth a ganlyn yw cynorthwyo tystion sy'n llunio gwybodaeth ysgrifenedig i bwyllgorau. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i ddarparu gwybodaeth a gyflwynwyd gan eraill mewn modd hygyrch.

- Defnyddiwch Gymraeg a Saesneg clir – gan osgoi jargon diangen.
- Defnyddiwch ffont sydd o leiaf maint 12.
- Defnyddiwch ffont sans serif, fel Lucida Sans.
- Peidiwch ag ysgrifennu testun dros luniau, graffeg neu ddyfrnodau.
- Lliwiau a chyferbyniad – dylai'r ysgrifen gyferbynnu gymaint â phosibl â'r cefndir: ysgrifen dywyll ar gefndir golau, ac ysgrifen olau ar gefndir tywyll.
- Peidiwch â defnyddio priflythrennau bloc, a cheisiwch osgoi defnyddio print trwm, print italig a thanlinellu.

Lle bo modd, dylid darparu gwybodaeth gan ddefnyddio Microsoft Word er mwyn sicrhau hygyrchedd. Pan fyddwch chi'n cyflwyno sgan neu pdf, yn enwedig pan fyddant yn llythyrau neu'n dablau o wybodaeth, dylech gyflwyno'r ddogfen Word wreiddiol gyda hi.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig (**ni** ddylai fod ar ffurf dogfen PDF yn ddelfrydol) i **pwyllgor.cclll@cymru.gov.uk**

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **30 Ionawr 2015.** Mae’n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Byddai’r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o’r llythyr hwn ymlaen at unrhyw unigolyn neu sefydliad a hoffai gyfrannu at yr adolygiad. Bydd copi o’r llythyr hwn yn cael ei roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=8469

**Datgelu gwybodaeth**

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn www.cynulliadcymru.org/cy/help/privacy/help-inquiry-privacy.htm. Gofynnwn ichi sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Yn gywir



**Christine Chapman AC**
Cadeirydd